


ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

Cymraeg 2050 yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru yn llwyr ymroddedig i'r strategaeth newydd, gyda tharged o filiwn o siaradwyr wedi'i gynnwys yn ei Rhaglen Lywodraethu: Symud Cymru Ymlaen ac yn Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol. Mae iaith Gymraeg ffyniannus hefyd wedi'i chynnwys yn un o'r nod llesiant yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae gennym hefyd rwymedigaeth strategol i ystyried effaith lawn ein gwaith ar y Gymraeg. Mae hyn yn golygu y dylai unrhyw bolisi gan Lywodraeth Cymru ystyried sut y mae ein polisïau yn effeithio ar yr iaith ac ar y rheini sy'n ei siarad.

Mae tair thema i'r strategaeth Cymraeg 2050.



Mae'r penawdau o dan bob thema yn amlinellu'r gwahanol fathau o weithgareddau a allai effeithio ar yr iaith.

Yn gyffredinol, os yw'n bosibl y gallai eich polisi gael effaith ar bobl, bydd yn cael rhyw fath o effaith ar siaradwyr Cymraeg ac ar y Gymraeg.

Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (a gwblhawyd gan Dîm Safonau'r Gymraeg, e-bost: Safonau.Standards@llyw.cymru):

02/05/2021

[A yw'r cynnig yn cysylltu'n glir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg – Cymraeg 2050, Miliwn o Siaradwyr a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2017-2021?](#)

[Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid: Y Cefndir](#)

Mae'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid (yr LPS) yn system newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf Galluedd Meddyliol y DU (Diwygio) 2019 a fydd yn disodli'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS).

Mae'r DoLS/LPS yn rhan o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005, sef y fframwaith cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr ynghylch sut y gwneir penderfyniadau pan nad oes gan berson y galluedd meddyliol i wneud y penderfyniad hwnnw ei hun.

Mae cydnabyddiaeth eang ar draws y system fod angen diwygio'r gyfraith bresennol a DoLS ar fyrder. Mae pobl sydd â phrofiad gwirioneddol a gofalwyr ymhlith y rhai sy'n cydnabod hynny. Mae ymrwymiad Gweinidogol cryf i weithredu'r mesurau amddiffyn newydd yng Nghymru. Mae ymrwymiad penodol i ddiwygio yng Nghynllun Cyflawni Iechyd Meddwl Cymru 2019-2022.¹

Diben yr LPS yw diogelu hawliau Erthygl 5 (hawl i ryddid) o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol pobl nad oes ganddynt alluedd meddyliol i gydsynio i'w gofal a'u triniaeth iechyd a/neu gymdeithasol. Pan fo'r trefniadau hynny'n gyfystyr ag amddifadu rhywun o'i ryddid oherwydd graddau'r cyfyngiadau y maent yn eu cynnwys, rhaid ceisio'r awdurdod cyfreithlon priodol i ddechrau ar y trefniadau hynny neu i barhau â hwy.

Mae'r system LPS yn darparu mesurau amddiffyn ar gyfer POB person 16 oed a throsodd nad oes ganddynt y galluedd meddyliol i gydsynio i'w gofal, cymorth neu driniaeth lle bo'r trefniadau hynny'n gyfystyr ag amddifadu rhywun o'i rhyddid h.y. nid ydynt yn rhydd i adael lle yn barhaol ac maent o dan oruchwyliaeth a rheolaeth barhaus. Bydd yr LPS hefyd yn berthnasol ym MHOB lleoliad (e.e. cartrefi gofal, cartrefi nyrsgo, ysbytai, lleoliadau byw â chymorth, gwasanaethau dydd, tai gwarchod, llety cysylltu bywydau a lleoliadau addysg arbenigol ôl-16 ac yng nghartrefi pobl). Ar y llaw

¹ [Cynllun Cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer Iechyd Meddwl 2019 i 2022](#)

arall, dim ond i drefniadau mewn cartrefi gofal ac ysbytai ac i bobl 18 oed a hŷn yr oedd DoLS yn berthnasol.

O dan y system LPS newydd, bydd Cyrff Cyfrifol (byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yng Nghymru) yn gyfrifol am awdurdodi'r trefniadau gofal, cymorth neu driniaeth sy'n gyfystyr ag amddifadu rhywun o'i ryddid.

Er mwyn cefnogi'r gwaith o roi'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid ar waith yng Nghymru, bydd pedwar maes o fesurau amddiffyn cyfreithiol, a Rheoliadau Cymreig yn sail iddynt. Bydd y rhain yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Gwella rôl Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol.
- Creu rôl newydd Proffesiynolyn Galluedd Meddyliol Cymeradwy– a threfniadau i awdurdodau lleol eu cymeradwyo, ynghyd â gofynion hyfforddi a chorff rhagnodedig i gymeradwyo'r hyfforddiant hwnnw (yng Nghymru, Gofal Cymdeithasol Cymru fydd hwn).
- Rhagnodi cyrff cyhoeddus (Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) / Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) / Estyn) i fonitro ac adrodd ar yr LPS.
- Cytuno a nodi pa weithwyr proffesiynol a all gynnal asesiadau, adolygiadau cyn-awdurdodi a gwneud penderfyniadau sy'n gysylltiedig ag LPS.

Mae'n ofynnol i'r Rheoliadau weithredu'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yng Nghymru. Heb y Rheoliadau hyn, ni fydd y fframweithiau cyfreithiol sydd eu hangen i helpu i weithredu yr LPS yng Nghymru ar waith.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymgynghori ar Reoliadau LPS drafft i Gymru.

Yn unol â Mwy na geiriau: Fframwaith Strategol ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol, bydd yr egwyddor 'cynnig rhagweithiol' yn berthnasol i waith a wneir fel rhan o'r LPS. Lle bo hynny'n berthnasol, cynigir gwasanaethau fel asesiadau a chymorth eiriolaeth yn Gymraeg. Bydd y broses o gynllunio'r gweithlu yn ceisio sicrhau nad oes unrhyw rwystrau rhag derbyn gwasanaethau yn Gymraeg, a bod y gwasanaethau hyn yn cael eu cynnig yn rhagweithiol.

Fel rhan o ymarferiad data sylfaenol i ddeall y gweithlu presennol yng Nghymru yn well, gofynnwyd i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol ddarparu gwybodaeth yn ymwneud â darparu gwasanaethau DoLS yn Gymraeg.

Ar gyfer gwasanaethau eirioli a gomisiynir gan fyrddau iechyd lleol, nododd 3 o'r 7 bwrdd iechyd y bu ceisiadau i wasanaethau eirioli annibynnol o ran galluedd meddyliol gael eu cynnig yn Gymraeg, gyda thua 10 cais trwy Gymru bob blwyddyn.

Nododd 5 o'r 22 awdurdod lleol y bu ceisiadau am gynnal asesiadau lles gorau yn Gymraeg, sy'n cyfateb i tua 50 o asesiadau'r flwyddyn trwy Gymru. Dywedodd 13 o'r

22 awdurdod lleol eu bod wedi cyflogi Aseswyr er Lles Pennaf a fyddai'n gallu cynnal asesiadau yn Gymraeg pe bai angen.

Cynhaliodd 1 bwrdd iechyd asesiadau yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a dywedodd 2 fwrdd iechyd bod capasiti ar gael o fewn y staff presennol.

Dywedodd rhai sefydliadau sydd heb Aseswyr er Lles Pennaf sy'n siarad Cymraeg fod trefniadau ar waith i drefnu cyfieithu pe bai angen hynny, a bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu i helpu staff i fod yn fwy hyderus i gynnal asesiadau yn Gymraeg.

Er mai niferoedd cyfyngedig yw'r rhain ledled Cymru, mae'n bwysig iawn bod y cynnig rhagweithiol ar gael i unigolion y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer asesiadau yr LPS, lle gall unigolion fod yn llawer mwy cyfforddus yn trafod eu dymuniadau a'u teimladau ynglŷn â gofal, cymorth neu driniaeth yn Gymraeg.

Bydd nifer sylweddol o unigolion hefyd yn byw gyda dementia a fydd yn cael cymorth o dan y fframwaith LPS, sy'n aml yn dibynnu ar siarad yn eu hiaith gyntaf. Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu cynlluniau gweithlu LPS lleol, bydd angen i Gyrff Cyfrifol weithio tuag at sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu ar sail un-i-un yn Gymraeg ac nad ydynt yn cynnig cyfieithu yn unig. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd yn ymgysylltu â strwythurau polisi dementia presennol er mwyn sicrhau bod gofynion y Gymraeg yn cael eu gweithredu'n briodol.

O ran monitro ac adrodd ar yr LPS: yn eu rôl ar fonitro ac adrodd, bydd AGIC, AGC ac Estyn yn parhau i gadw at Safonau'r Gymraeg, yn enwedig o ran cyfarfod y person y gofali amdano a sicrhau bod y gofynion o ran y Gymraeg yn cael eu bodloni. Ers mis Mehefin 2019, mae dyletswyddau newydd ar fyddau iechyd yng Nghymru i gynnig gwasanaethau Cymraeg i gleifion. Y dyletswyddau hyn yw Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn rheoleiddio cydymffurfiaeth byrddau iechyd â'r Rheoliadau hyn.

Fel y nodwyd yn Natganiad Iaith Gymraeg AGIC a gyhoeddwyd yn 2019, mae AGIC yn gwirio bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu darparu gan wasanaethau gofal iechyd fel rhan o'i rhaglen arolygu bresennol. Fel rhan o'r fframwaith, mae AGIC yn arolygu ac yn adrodd a yw siaradwyr Cymraeg yn gallu defnyddio'r Gymraeg fel rhan naturiol o'u gofal, ac a yw siaradwyr Cymraeg yn gallu defnyddio'r Gymraeg i fynegi eu hunain wrth dderbyn gofal yn unol â'r Safonau Iechyd a Gofal. Mae AGIC yn adrodd ar ganfyddiadau arolygiadau o ran darpariaeth Gymraeg, gan ddadansoddi themâu a thueddiadau penodol yn ei adroddiad blynyddol. Yn yr un modd, fel rhan o'i arolygiadau o wasanaethau a reoleiddir, mae AGC eisoes yn ystyried ac yn adrodd a wneir 'Cynnig Rhagweithiol' i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau – fel y nodir yn 'Mwy na geiriau: Fframwaith Strategol ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol'. Mae AGC hefyd yn ystyried perfformiad gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol wrth gynnal asesiadau galluedd meddyliol ac awdurdodiadau colli rhyddid yn Gymraeg fel y bo'n briodol yn unol â Mwy na geiriau. Yn yr un modd, mae arolygiadau Estyn yn cynnwys sylw penodol i Safonau'r Gymraeg.

Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac eglurwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg. Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg o bob oed (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)? Dylech nodi eich ymatebion i'r canlynol yn eich ateb i'r cwestiwn hwn, ynghyd ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall:

- Yn gyffredinol – rhagwelir y bydd gweithredu Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid a Rheoliadau Cymru (o ran monitro ac adrodd; rôl y Proffesiynolyn Galluedd Meddyliol Cymeradwy; pwy sy'n gallu cynnal asesiadau, penderfyniadau ac adolygiadau cyn-awdurdodi; a rôl yr Eiriolwr I Galluedd Meddyliol Annibynnol) yn cael effaith gadarnhaol ar siaradwyr Cymraeg.

Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?

- Bydd y cynnig yn effeithio'n gadarnhaol ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith, gan y bydd y gwaith o fodelu'r gweithlu i weithredu yr LPS yn ystyried y galw am wasanaethau Cymraeg, a'r gallu lleol i gyflawni hyn. Gan fod awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn datblygu eu gweithlu i weithredu yr LPS, bydd y gallu i ddarparu gwasanaethau yn briodol yn Gymraeg yn ystyriaeth allweddol a nodir yng Nghynllun Gweithlu a Fframwaith Hyfforddi yr LPS.
- Fel yr amlygwyd uchod: o ran monitro ac adrodd ar yr LPS – yn eu rôl ar fonitro ac adrodd, bydd AGIC, AGC ac Estyn yn parhau i gadw at Safonau'r Gymraeg, yn enwedig o ran cyfarfod â'r person y gofali'r amdano a sicrhau bod y gofynion o ran y Gymraeg yn cael eu bodloni.
- Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad ffurfiol ar y Rheoliadau a'r Asesiadau Effaith drafft, bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ymgysylltu'n benodol ar Gynllun y Gweithlu a'r Fframwaith Hyfforddi. Mae'r rhain yn ddogfennau sydd wedi'u hanelu at weithwyr proffesiynol o fewn Cyrff Cyfrifol a fydd yn darparu cyngor cynllunio i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cynlluniau lleol ar gyfer gweithredu a chynnal Trefniadau Amddiffyn Rhyddid. Felly, bydd yr ymgysylltu â ffocws yn cael ei wneud gyda rhanddeiliaid o fewn Cyrff Cyfrifol a sefydliadau allweddol eraill, i ddatblygu dogfennau cynllunio'r gweithlu, ac i alluogi Cyrff Cyfrifol i ddechrau datblygu a gweithredu eu cynlluniau gweithlu eu hunain cyn gynted â phosibl. Yn dilyn yr ymgysylltu hwn, cyhoeddir fersiynau wedi'u diweddarau o Gynllun y Gweithlu a'r Fframwaith Hyfforddi.
- Yn ogystal, bydd AGIC, AGC ac Estyn hefyd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddatblygu Strategaeth Monitro ac Adrodd ar gyfer yr LPS. Yn dilyn yr ymgysylltu hwn a'r ymgynghoriad ar y Rheoliadau LPS drafft, cyhoeddir Strategaeth Monitro ac Adrodd i Gymru.

- Byddwn yn defnyddio'r cyfnod ymgynghori i gasglu tystiolaeth bellach o effeithiau'r LPS ar y Gymraeg. Bydd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Rheoliadau drafft ar gyfer Cymru ar gyfer ymgynghori – a gofynnir cwestiynau ymgynghori penodol ar y Gymraeg i gasglu barn rhanddeiliaid ar ein hasesiad o effaith.

Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar addysg Gymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oed, gan gynnwys oedolion (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?

- Rydym yn rhagweld bydd effaith gadarnhaol ar addysg cyfrwng Cymraeg. Mae sefydliadau eisoes yn cynnig cyrsiau i gynyddu hyder staff i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg, a bydd hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth wrth ddatblygu gweithlu sy'n gallu darparu'r cynnig rhagweithiol.

Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar y gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)? (ee iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, trafnidiaeth, tai, digidol, ieuencid, seilwaith, amgylchedd, llywodraeth leol ac ati.)

- Rydym yn rhagweld bydd effaith gadarnhaol ar wasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg gan y bydd y gwaith modelu ar gyfer y gweithlu i weithredu yr LPS yn ystyried y galw am wasanaethau Cymraeg, a'r gallu lleol i gyflawni hyn. Gan fod yr awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd yn datblygu eu gweithlu i weithredu yr LPS, bydd y gallu i ddarparu gwasanaethau yn briodol yn Gymraeg yn ystyriaeth allweddol a nodir yng Nghynllun y Gweithlu.
- Mae gan nifer o wasanaethau nad ydynt wedi cael ceisiadau i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg y gallu eisoes i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg, ond bydd angen datblygu'r capasiti hwn mewn meysydd eraill drwy hyfforddiant a recriwtio. Bydd yr un mor bwysig sicrhau bod gwybodaeth a ddarperir i unigolion a'u teuluoedd yn rhagweithiol o ran cynnig gwasanaethau yn Gymraeg.

Sut y byddwch yn sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg a'u bod yn gallu cael mynediad atynt a'u defnyddio mor rhwydd â gwasanaethau Saesneg? Pa dystiolaeth / data y gwnaethoch eu defnyddio i lywio eich asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan siaradwyr Cymraeg neu grwpiau â diddordeb yn y Gymraeg?

- Gofynnwyd am ddata gan yr awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd lleol yn ymwneud â nifer yr achosion lle mae gwasanaethau wedi'u darparu yn Gymraeg, a gallu'r gweithlu i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg. Os oes lefelau isel o achosion lle mae gwasanaethau wedi'u darparu yn Gymraeg, byddwn yn archwilio'r rhesymau dros hyn gyda'r byrddau iechyd a'r awdurdodau lleol.

- Bydd gwybodaeth a ddarperir i unigolion o dan yr LPS a'r Person Priodol sy'n eu cefnogi yn nodi'r cynnig rhagweithiol o wasanaethau a ddarperir yn Gymraeg.

Pa dystiolaeth arall fyddai'n eich helpu i gynnal asesiad gwell?

- Mae'r data a ddarperir gan wasanaethau wedi dangos cryn amrywiaeth rhwng ardaloedd yn nifer yr achosion lle darperir gwasanaethau yn Gymraeg. Byddai'n ddefnyddiol pe bai dystiolaeth bellach yn cael ei darparu ynghylch a yw'r amrywiaeth hwn yn deillio'n bennaf o wahaniaethau yn y galw, neu wahaniaethau o ran pa mor rhagweithiol yw ardaloedd lleol wrth wneud y cynnig. Yna gellid rhannu arferion gorau rhwng ardaloedd.

Sut y byddwch yn gwybod a yw eich polisi yn llwyddiant?

- Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu Set Ddata Ofynnol Genedlaethol ar yr LPS i Gymru. Bydd disgwyl i Gyrff Cyfrifol (byrddau iechyd ac awdurdodau lleol) gasglu data sy'n ymwneud ag unigolion o dan LPS y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt. Rhoddir ystyriaeth i sut y gall y set ddata wedyn gofnodi cyfran yr achosion lle cynigir gwasanaethau yn Gymraeg i'r unigolion hyn.

Y Tîm Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed, Llywodraeth Cymru, Mawrth 2022